**Pleidleisiau a Thrafodion dydd Mawrth, 3 Rhagfyr 2002**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm**

**Ethol i'r Pwyllgorau**

**Gwrthwynebodd nifer o Aelodau i gynnig y dylai’r Cynulliad bleidleisio ar y ddau gynnig ethol gyda’i gilydd yn unol â Rheol Sefydlog 8.4A.**

*NDM1234* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 15.4 yn ethol Tom Middlehurst (Llafur) yn gadeirydd ei Bwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21 gofynnodd mwy na 3 Aelod am gael canu’r gloch**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 23; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd y cynnig**

*NDM1233* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 14.3 yn ethol Ann Jones (Llafur) yn gadeirydd ei Bwyllgor Cyfle Cyfartal.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 32; Ymatal 0; Yn erbyn 23; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.10pm**
**Cwestiynau Llafar i’r Prif Weinidog**
Atebwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl.

**2.55pm**
**Datganiad: Cylch gorchwyl yr adolygiad arfaethedig o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru**

**3.25pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**Cymerodd y Dirprwy Lywydd y Gadair.**

**3.32pm**
**Dadl ar Gynyddu'r Nifer sy'n Cymryd Rhan Mewn Chwaraeon - yn enwedig menywod a**

**merched**
*NDM1235 - C*ynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu’r gwaith sydd wedi’i wneud hyd yn hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog mwy o bobl, yn enwedig menywod a merched, i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

2. Yn cadarnhau targedau’r Cyngor Chwaraeon ar gyfer sicrhau bod mwy o fenywod a merched yn cymryd rhan mewn chwaraeon;

3. Yn credu bod gan y wasg a’r cyfryngau gyfraniad sylweddol i’w wneud wrth annog y cyhoedd i gydnabod mor bwysig ydyw i fenywod gymryd rhan mewn chwaraeon;

4. Yn cydnabod pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol wrth hybu ffyrdd iachach o fyw ac yn cytuno y dylai’r holl bolisïau a’r mentrau sy’n gysylltiedig â chwaraeon yn awr ac yn y dyfodol roi sylw i’r effaith ar gyfranogiad gan fenywod.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn cydnabod bod angen buddsoddi'n sylweddol yn Athrofa Chwaraeon Cymru, sy'n hen erbyn hyn, fel canolfan ragoriaeth sy'n hollbwysig i lwyddiant Cymru ar lefel ryngwladol

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:
Yn cydnabod ei bod yn bwysig i'r holl ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru gael dwy awr yr wythnos o addysg gorfforol.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod bod darparu addysg gorfforol o safon uchel i ferched mewn ysgolion yn hanfodol i sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn ddiweddarach yn eu bywydau ac yn sylweddoli bod angen buddsoddi pellach yng nghyfleusterau AG yr ysgolion er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i adfywio chwaraeon ar bob lefel yng nghwricwlwm ysgolion Cymru.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi datblygiad canolfannau aml-gamp rhanbarthol trwy hyrwyddo'r modd mwyaf effeithiol o ddefnyddio adnoddau cyhoeddus, cymunedol a phreifat.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd Gwelliant 4**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 51; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.30pm**
**Dadl ar y gwaith sy’n cael ei wneud i fynd i’r afael â Dieithrio gan ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru**
*NDM1236* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru’n nodi’r gwaith sy’n cael ei wneud ar hyn o bryd i fynd i’r afael ag ymddieithrio gan ddisgyblion yn ysgolion Cymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig;
‘ond gan resynu at y diffyg cynnydd o ran mynd i’r afael â mater disgyblaeth ymysg disgyblion a’r niwed y mae targedau eithrio disgyblion yn ei achosi.’

**Gwellaint 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd
Bod y Cynulliad Cenedlaethol:
i) yn nodi mai un o’r ffactorau sydd wrth wraidd ymddieirthrio yw’r cwricwlwm gor-haearnaidd ac anhyblyg; ac
ii) yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i edrych ar yr agweddau hynny ar y cwricwlwm cyfan, 3-19 oed, a allai arwain at ymddieithrio.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd
Bod y Cynulliad Cenedlaethol:
i) yn nodi ymhellach bod rhoi gormod o bwyslais ar ganlyniadau arholiad fel yr unig gyfrwng i fesur llwyddiant addysgol wedi cadw ysgolion rhag rhoi blaenoriaeth i waith gyda’r rheini sydd mewn perygl o ymddieithrio; ac
ii) yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud mwy o waith ar fesurau eraill i werthuso llwyddiant sy’n seiliedig ar brofiad addysgol cyfan y plant a’r bobl ifanc, fel ffordd i fynd i’r afael ag ymddieithrio.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 8; Ymatal 12; Yn erbyn 30; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 31; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

**Y cynnig**
O Blaid 50; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.33pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 4 Rhagfyr 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a osodwyd ar 2 Rhagfyr 2002**

- Memorandwm Cywiriadau - Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002 - LD1706
- Notifiable Transaction Under SO 19-13 – Gifting of Gwynfryn Site - LD1707 Dim copi Cymraeg ar gael
- Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1708
- The Air Quality (Amendment) (Wales) Regulations 2002 – Regulatory Impact Assessment - LD1709 Dim copi Cymraeg ar gael
- Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002 - LD1710

- ☐ Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002 - LD1711
- ☐ The Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Wales) Regulations 2002 – Regulatory Appraisal – LD1712 Dim copi Cymraeg ar gael
- ☐ Rheoliadau Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2003 - LD1713
- ☐ The Health, Social Care and Well-being Strategies (Wales) Regulations 2003 – Regulatory Impact Assessment - LD1714 Dim copi Cymraeg ar gael
- ☐ Rheoliadau Arolygu Ysgolion a Cholegau Byrddio (Pwerau a Ffioedd) (Cymru) 2002 - LD1715
- ☐ The Inspection of Boarding Schools and Colleges (Powers and Fees) (Wales) 2002 – Regulatory Appraisal - LD1716 Dim copi Cymraeg ar gael
- ☐ The Local Health Boards (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2003 - LD1717 Dim copi Cymraeg ar gael
- ☐ The Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 - LD1718 Dim copi Cymraeg ar gael
- ☐ Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) 2003 - LD1719
- ☐ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) a (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1720
- ☐ Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2002 LD1721
- ☐ Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 19) (Cymru) 2002 - LD1722
- ☐ Gorchymyn Tai (Hawl i Gaffael a Hawl i Brynu) (Ardaloedd Gwledig Dynodedig a Rhanbarthau Dynodedig) (Cymru) 2003 - LD1723

**Dogfennau a osodwyd ar 29 Tachwedd 2002**

- ☐ Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynllun Pensiwn Aelodau, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon - 1 Ebrill 2001 hyd 31 Mawrth 2002 - LD1706

**Dogfennau a osodwyd ar 28 Tachwedd 2002**

- ☐ Food Standards Agency: Putting the Customer First - Autumn Performance Report 2002 - LD1705 Dim copi Cymraeg ar gael

**Dogfennau a osodwyd ar 27 Tachwedd 2002**

- ☐ Y Diweddaraf am Ddatganiad Cyllid y Cynulliad 2003-2004 - LD1703
- ☐ Y Diweddaraf am Ddatganiad Cyllid y Cynulliad 2003-2004 - Nodiadau Esboniadol - LD1704